

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD GWENER, 5ED RHAGFYR, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

01286 679556

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Gary Pritchard	Cyngor Sir Ynys Môn
Nia Jeffreys	Cyngor Gwynedd
Charlie McCoubrey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jason McLellan	Cyngor Sir Ddinbych
Dave Hughes	Cyngor Sir y Fflint
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Edmund Burke	Prifysgol Bangor
Yr Athro Joe Yates	Prifysgol Wrecsam
Yana Williams	Coleg Cambria
Aled Jones-Griffith	Grŵp Llandrillo Menai
David Roberts	Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Edgar Wyn Owen	Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Gibbard	Cyngor Gwynedd
Rhun ap Gareth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Graham Boase	Cyngor Sir Ddinbych
Neal Cockerton	Cyngor Sir y Fflint
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr y CBC / Cyfarwyddwr Portffolio
Iwan Evans	Swyddog Monitro
Claire Incledon	Dirprwy Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
Hedd Vaughan-Evans	Pennaeth Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

5 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 03 Hydref 2025 a 07 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO 2025 A CHYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL

18 - 55

Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau, i gyflwyno'r adroddiad.

Mae Atodiad 2 ar wahân ar gyfer Aelodau'r Is-bwyllgor yn unig. Mae'r Atodiad yn eithriedig o dan Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Gwybodaeth ynglŷn a thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol Atodiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghroau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Tw fi rannu gwybodatech sensitive ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir

fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglyn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r CBC ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau

7. RHAGLEN UWCHRADDIO PORTHLADD MOSTYN, ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+

David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, i gyflwyno'r adroddiad.

8. YSGOL FUSNES ALBERT GUBAY, PRIFYSGOL BANGOR, ACHOS BUSNES AMLINELLLOL

Stuart Whitfield, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, i gyflwyno'r adroddiad.

9. PROSIECT GWELLA RHEILFFYRDD PADESWOOD - ACHOS BUSNES AMLINELLLOL

David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, i gyflwyno'r adroddiad.

10. CAIS AM NEWID ANTURIAETHAU GYFRIFOL

Elliw Hughes, Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf, i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD 03/10/2025

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais) – Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor), ac yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam).

Prif Swyddogion – Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Sarah Ecob (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Dylan Williams (Cyngor Ynys Môn), ac Ian Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Awdurdod Lletya – Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Jasmine Jones a Sera Whitley (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Prif Weithredwr Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu), Elli Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net), a David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru), Gareth Ashman ac Alexandra McDonald (Llywodraeth y DU)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri).
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria).
- Yr Athro Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai).
- David Roberts (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol).
- Rhun ap Iared (Cyngor Conwy) gyda Sarah Ecob yn dirprwyo.
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.
- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda Ian Jones yn dirprwyo.
- Dewi Morgan (Cyngor Gwynedd) gyda Sian Pugh yn dirprwyo.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cyngorydd Jason McLellan ar gyfer eitem 8 ac eitem 9. Nid oedd yr aelod o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan yr Athro Joe Yates ar gyfer eitem 11 gan eu bod yn gyflogedig gan Brifysgol Wrecsam. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard ar gyfer eitem 12, nid oedd yr aelod o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

3. MATERION BRYD

Diolchwyd i'r Cynghorydd Charlie McCoubrey am ei waith ar yr Is-bwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf, a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2025 fel rhai cywir.

5. SEFYLLFA REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD GORFFENNAF 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh.

PENDERFYNIAD

- 1. Nodi'r adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2025, gan gynnwys y trosglwyddiad unwaith ac am byth yn y gyllideb sy'n ymwneud ag incwm a gwariant grant.**
- 2. Nodi'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodi tanwariant a ragwelir o £280,562 yn erbyn cyllideb refeniw ar gyfer 2025/26.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd adolygiad amcan o sefyllfa refeniw 2025/26 yn dilyn adolygiad a wnaethpwyd diwedd Gorffennaf.

Nodwyd bod proffil rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd a hynny'n dilyn yn sgil o rhai cynlluniau'n cael eu tynnu allan a chynlluniau newydd yn cael eu hychwanegu o'r rhestr wrth gefn. Bydd y gwaith yma yn cael ei adrodd fel rhan o'r Achos Busnes Portffolio ym mis Rhagfyr ac yna fel rhan o'r adolygiad ariannol chwarter tri.

Cyflwynwyd trosolwg o'r sefyllfa refeniw'r Cynllun Twf â'r sefyllfa ar gyfer y cynlluniau grant Ynni a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nodwyd amcan o danwariant o £280 mil ar gyfer 2025/26. Nodwyd bod hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn gwariant gweithwyr, swyddi llywodraeth ychwanegol a gwasanaethau cefnogol y corff atebol. Tynnwyd sylw at lwyddiant gyda'u cais Cronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi cyfrannu ymhellach at y tanwariant mewn gwariant gweithwyr,

Ymhelaethwyd bod grant o £177 mil gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ynni a £444 mil o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cynnwys yn y gyllideb yng ngholofn 'Trosglwyddiadau unwaith ac am byth'.

Adroddwyd amcan o falensau'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2026. Ymhelaethwyd eu bod yn rhagweld y bydd rhaid benthycu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn ariannu'r Cynllun Twf, ac felly bydd y costau yma yn cael eu hariannu o'r gronfa llog.

Eglurwyd bod yr adroddiad yma eisoes wedi ei dderbyn gan y Cydbwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 19 Medi.

Diolchwyd am yr adroddiad.

6. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 1 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau.

PENDERFYNWYD

- 1. Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**
- 2. Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd adroddiad perfformiad chwarter 1, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin eleni. Nodwyd bod sawl carreg filltir bwysig wedi'i chyrraedd yn ystod y cyfnod, gan gynnwys trosglwyddo'r gwaith Cynllun Twf i'r CBC. Adroddwyd bod adolygiad o'r portffolio wedi'i gynnal, gyda phenderfyniadau allweddol wedi'u gwneud ar brosiectau unigol, a bod y rhestr wrth gefn newydd, ynghyd â'r trefniadau sicrwydd a chymeradwyo, wedi'u symleiddio ac wedi'u gweithredu'n llwyddiannus.

Cyfeiriwyd at gymeradwyo dau achos busnes llawn yn ystod y chwarter, sef 4G+ a'r prosiect Ynni Lleol Blaengar. Yn ogystal, nodwyd bod y cytundeb benthyciad ar gyfer prosiect Cydnerth wedi'i gwblhau, bod yr achos busnes ar gyfer Theatr Clwyd wedi'i gymeradwyo, a bod y prif adeilad ym Mhlas Coch, fel rhan o brosiect EEOC, wedi'i gwblhau gyda lansiad meddal, tra bod y cyfleusterau labordy ym Mhlas Henfaes wedi'u hadnewyddu'n llawn.

Atgoffwyd bod pedwar prosiect yn parhau i adrodd statws coch ar hyn o bryd, a nodwyd y byddant yn rhan o'r ailgylch adolygu portffolio nesaf, gyda chynigion ac argymhellion i'w cyflwyno'n ôl i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. Nodwyd bod nifer o achosion busnes ar rhaglen yr cyfarfod hwn, ac y byddai eu cymeradwyo'n gosod y Bwrdd mewn sefyllfa fwy cadarnhaol o ran perfformiad.

O ran buddion, nodwyd bod y nifer o swyddi a grëwyd erbyn diwedd chwarter 1 yn sefyll ar 38. Derbyniwyd nad oedd y ffigur hwn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond bod hynny'n adlewyrchu nifer y prosiectau sydd yn y cam cyflawni presennol. Disgwylir cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd nesaf wrth i fwy o brosiectau symud i gam cyflawni. Nodwyd bod gwaith ar y gweill gyda'r cynlluniau twf eraill i safoni'r broses o gasglu data ar swyddi adeiladu a swyddi sydd wedi'u diogelu, er mwyn gallu darparu darlun mwy cynhwysfawr i'r Bwrdd a'r Llywodraeth o'r effaith y mae'r prosiectau'n ei chael.

Nodwyd bod buddsoddiad y Cynllun Twf erbyn diwedd chwarter 1 yn sefyll ychydig dros £22.6 miliwn, gyda chyfanswm y buddsoddiad dros £24 miliwn. Nodwyd ymhellach bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y buddion ehangach sy'n dechrau dod i'r amlwg, megis incwm ychwanegol wedi'i sicrhau, myfyrwyr yn cwblhau cymwysterau, a chymau i gryfhau cadwyni cyflenwi. Nodwyd y bydd yr elfen hon yn cael ei datblygu ymhellach mewn adroddiadau yn y dyfodol wrth i fwy o brosiectau symud i gyflawni a mwy o ddata ddod ar gael am eu heffaith.

O ran risg, nodwyd bod y sefyllfa'n weddol gyson â chwarter 4 2024/25. Nodwyd bod y risg weddilliol ar oedi wedi lleihau ychydig, yn sgil gweithredu'r rhestr wrth gefn. Fodd bynnag, nodwyd bod y risg weddilliol o ran cynllunio wedi cynyddu, gan bod rhai risgiau sylfaenol yn parhau yn y system ac angen eu monitro'n agos.

Nodwyd falchder o weld lliwiau'r gofrestr risg yn gwella, ond er hyn nodwyd pryder ynghylch cymryd y ffaith hon allan o'i chyd-destun, gan nad oedd y ffigur o 38 o swyddi newydd yn adlewyrchu'n llawn y gwaith a gyflawnwyd hyd yma. Nodwyd bod nifer o brosiectau ar y gweill yn dangos bod y Cyngor yn symud tuag at ei dargedau, a bod angen bod yn aeddfed ac yn gadarn wrth symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.

Mynegwyd pryder ynghylch y ffigur swyddi newydd, sef 38. Nodwyd ymhellach bod yn bwysig egluro pa fath o swyddi oedd y rhain ac adeiladu'r eglurhad hwn i mewn i'r dashfwrdd. Cwestiynwyd a oedd y swyddi hyn yn rhai llawn amser ac o ansawdd uchel. Nodwyd bod yn bwysig anelu at greu swyddi o werth uchel er mwyn cadw pobl o fewn eu cymunedau. Mewn ymateb, nodwyd bod y 38 swydd yn swyddi cyfwerth llawn amser ac yn deillio o brosiectau DSP Prifysgol Bangor, EEOC Prifysgol Wrecsam a swyddi llawn amser o fewn swyddfa rheoli'r portffolio. Pwysleisiwyd y byddai llawer mwy o fanylder ar gael yn y dyfodol ynglŷn â'r swyddi sy'n cael eu creu.

Mynegwyd pryder ynghylch prosiectau heb ganiatâd cynllunio. Cwestiynwyd a oedd yn bosibl cael diweddariad ar y rhestr wrth gefn, yn enwedig ar brosiect Trawsfynydd. Mewn ymateb, nodwyd bod cynllunio'n broses gymhleth sy'n ddibynnol ar benderfyniadau'r awdurdod lleol. Nodwyd bod y rhestr wrth gefn yn symud ymlaen yn dda, gyda phedwar o'r prosiectau hynny ar raglen y cyfarfod hwn. Nodwyd yn benodol ynghylch Trawsfynydd bod y prosiect yn symud ymlaen yn gadarnhaol, gyda diweddariadau cadarnhaol yn cael eu derbyn gan y tîm ynglŷn â'r gyllideb a'r fframwaith llywodraethu. Nodwyd ymhellach y byddai gweithdy'n cael ei gynnal ar ddiwedd y mis ar gyfer y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â phrosiect Trawsfynydd.

Nodwyd bwysigrwydd cynnwys naratifau cryfach ynghylch y swyddi a fydd yn cael eu creu dros oes y prosiectau hyn yn y tymor hir, yn enwedig yn y maes adeiladu. Nodwyd ymhellach bod nifer o'r swyddi hyn ddim yn dod yn weithredol tan bod y prosiectau wedi'u cwblhau ac wedi symud i'r cyfnod gweithredu, gan achosi oedi yn ystadegau'r swyddi.

Pwysleisiwyd yr angen i ailfframio'r naratif ynghylch y swyddi, gan bwysleisio'r swyddi anuniongyrchol sy'n cael eu creu o fewn cymunedau lleol ac yn y cadwyni cyflenwi o ganlyniad i'r Cynllun Twf. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn cylchredeg rhagor o wybodaeth ynghylch y swyddi, yn enwedig o ran ansawdd y swyddi sy'n cael eu creu. Nodwyd, os nad oedd digon o wybodaeth ar gael, y byddai'n briodol ailedrych ar y fframwaith casglu data yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu.

Cwestiynwyd ynghylch yr amserlen ar gyfer y pedwar prosiect sydd ar y rhestr wrth gefn ac sy'n ddisgwyl dod gerbron y pwyllgor ym mis Tachwedd, gan ofyn i'r swyddogion gadarnhau eu bod ar y trywydd iawn i wneud hynny, gan fod angen penderfyniad ar y pryd ynghylch a

ddylid eu hariannu ai peidio. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y pedwar prosiect hyn ar y trywydd iawn i ddod gerbron y pwyllgor ym mis Tachwedd.

Diolchwyd am y drafodaeth a'r gwaith craffu ar y pwnc. Pwysleisiwyd bod craffu a herio o'r fath yn iach ac yn cael eu croesawu.

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 11-14 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

8. PENODI YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC.

PENDERFYNWYD

Cytuno ar yr argymhellion a nodir yn adra 4.6 ar gyfer penodi dau ymgynghorydd i'r rolau Ymgynghorwyr Anweithredol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Cydbwyllgor Corfforedig y Cylch Gorchwyl a'r broses benodi ar gyfer Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd yn dilyn trosglwyddo'r Cynllun Twf ynghyd â chymeradwyo'r disgrifiadau rôl ar gyfer dau Ymgynghorydd Anweithredol newydd. Awdurdododd y Cydbwyllgor Corfforedig y Prif Weithredwr dros dro i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gaffael ymgeiswyr i'w hargymell i'w penodi i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

9. CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU – CAIS AM NEWID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

PENDERFYNWYD

1. Cytuno i'r cais am newid i rannu'r gwaith o gyflawni prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn ddau gam gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel Noddwr y Prosiect ar gyfer Cam 1 Gwaith Dymchwel ac Adfer Hanfodol a Mesurau Lliniaru Ecolgol, a Jones Bros yn parhau i fod yn Noddwr y Prosiect ar gyfer Cam 2. (Y gwaith dymchwel ac adfer sy'n weddill, adeiladu unedau masnachol ac addasu Adeilad Rhestredig y Prif Ysbyty yn fflatiau a galluogi datblygu 300 o gartrefi.
2. Cytuno i ryddhau £2m cychwynnol o gyllid ar gyfer Cam 1 i Gyngor Sir Ddinbych gyda'r opsiwn o ddarparu £1m arall wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro gan ddal sylw at y materion yn rhan 4.3 o'r adroddiad
3. Nodi y bydd cwblhau Cam 1 yn galluogi'r prosiect i weld yn llawn y costau sy'n gysylltiedig â Cham 2 ac y gallai hyn arwain at gais am gyllid pellach ond byddai hyn yn destun penderfyniad ar wahân yn y dyfodol os oes angen.
4. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ac ymrwymo i gytundeb cyllido gyda Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer Cam 1 yn amodol ar gwblhau'r asesiad Rheoli Cymorthdal iadau.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

1. Mae angen bwrw ymlaen â'r gwaith Cam 1 yn fuan er mwyn darparu sicrwydd cost ar Gam 2 ac i fynd i'r afael â materion iechedd a diogelwch brys ar y safle o ganlyniad i gyflwr dirywiol yr adeiladau sydd angen eu dymchwel beth bynnag waeth beth fo'r materion iechedd a diogelwch.
2. Drwy ddod â dymchwel yr adeiladau hyn ymlaen, gellir sicrhau mynediad diogel i'r Adeilad Rhestredig Prif Restr (MRLB) gan ganiatáu:
 - i. i'w arolygu fel y gellir cael asesiadau cyfredol o gostau trosi, hyfywedd y prosiect cyffredinol ac ati
 - ii. Y gellir cynnal unrhyw waith brys i'r MRLB i gyfyngu ar unrhyw ddirywiad pellach yn ei gyfanrwydd strwythurol
 - iii. momentwm/hyder i'w adeiladu yn y prosiect o ran y cerrig milltir eraill y mae angen eu cyflawni.
3. Mae pob plaid wedi cytuno y dylai clirio'r adeiladau i'w dymchwel fod yn flaenoriaeth. Tra bod y gwaith hwn yn parhau, bydd y trafodaethau ynghylch cynnwys yr Adran 106 sy'n cysylltu â rhoi caniatâd cynllunio yn parhau.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

10. ACHOS FUSNES AMLINELLLOL PROSIECT PRINCE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Elliw Hughes, Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) ar gyfer Prosiect Prince yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Knauf Insulation Limited yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y'u disgrifir yn Adran 7, a gofyn i Achos Busnes Llawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.

2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel sail i'r trefniadau cyllido terfynol ar gyfer y prosiect yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.
3. Bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o ddeuddeg mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn gymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd a chyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.
4. Nodi'r bwriad i rannu'r cyllid rhwng y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi (ar ôl ei gymeradwyo) ac y bydd y sefyllfa hon yn cael ei chadarnhau yn ystod y cam Achos Busnes Llawn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

1. Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Prince gan Knauf Insulation Limited.
2. Bydd penderfyniad gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn galluogi Knauf i symud ymlaen i gam nesaf eu proses gymeradwyo mewnol.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

11. PROSIECT GWEITHGYNHYRCHU A GALLU BUSNES CYMDEITHAS 5.0 – ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES A MWY (BJC+)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Elliw Hughes, Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes (BJC+) ar gyfer Prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu Busnes Cymdeithas 5.0, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd.
2. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gadarnhau'r costau a'r buddion terfynol ar ôl caffael yn unol â'r achos busnes cymeradwy ac yn ymrwymo i gytundeb cyllido gyda Phrifysgol Wrecsam ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar Brifysgol Wrecsam yn mynd i'r afael â'r materion sydd heb eu datrys yn adran 7 o'r adroddiad ac yn sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.
3. Sicrhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i gytundeb cyllido wedi'i lofnodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Prosiect Gwaith gynhyrchu a Gallu Busnes Cymdeithas 5.0.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

12. PROSIECT SAFLEOEDD AC ADEILADAU GOGLEDD YNYS MÔN - ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB+) ar gyfer prosiect Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Ynys Môn, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r broses sicrwydd a gynhaliwyd.
2. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gadarnhau bod y costau a'r buddion terfynol ar ôl caffael yn unol â'r achos busnes cymeradwy, ac yn ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Chyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar Gyngor Sir Ynys Môn yn mynd i'r afael â'r materion sydd heb eu datrys a nodir yn adran 7 yr adroddiad a sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.
3. Sicrhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i gytundeb cyllido wedi'i lofnodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r ACB+ ar gyfer prosiect Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Ynys Môn.

Mae'r ACB+ drafft yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ym mis Hydref er mwyn galluogi'r Cyngor i ymrwymo i Gytundeb Menter ar y Cyd â Llywodraeth Cymru cyn cychwyn proses gaffael ffurfiol i benodi Prif Gontractwr ar gyfer y ddau safle sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i gaffael ar gyfer y prosiect ddechrau yn Ch4 2025 gyda dewis bidiwr a ffafrir wedi'i gadarnhau ar gyfer Adeilad y Derfynfa Forol a'r unedau busnes newydd yn Ch1 2026.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

13. PROSIECT PORTH Y PORTHLADD RHYDD – ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB+) ar gyfer prosiect y Porthladd Rhydd, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd.
2. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gadarnhau'r costau a'r buddion terfynol ar ôl caffael yn unol â'r achos busnes cymeradwy, ac yn ymrwymo

i gytundeb ariannu gyda Chyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar Gyngor Sir Ynys Môn yn mynd i'r afael â'r materion sydd heb eu datrys a nodir yn adran 7 o'r adroddiad a sicrhau'r holl gymeradwy aethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

3. Cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i gytundeb cyllido wedi'i lofnodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r ACB+ ar gyfer prosiect Porth y Porthladd Rhydd.

Mae'r ABC+ drafft yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ym mis Hydref er mwyn i CSYM gwblhau'r gwaith o brynu buddiant rhydd-ddaliad y safle gan Eastman. Gan fod gan y safle rwymedigaethau sylweddol, mae CSYM yn dymuno cael sicrwydd y bydd ganddynt ddigon o gyllid i fynd i'r afael â'r gwaith dymchwel, adfer a gwaith clirio safle yn ogystal â darparu ar gyfer priffordd y gellir ei mabwysiadu i gael mynediad i'r safle. Fel rhan o brosiect ehangach Porth y Porthladd Rhydd, mae CSYM yn dymuno adeiladu unedau cyflogaeth ychwanegol ar Barc Diwydiannol Tregarnedd gerllaw a dod â llain datblygu ymlaen i fod ar werth ar y farchnad agored.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 12:00.

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD
07/11/2025

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais) – Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor), yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Edgar Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Jonathan Cawley (Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Swyddogion Cyngorau Cyfansoddol -Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Iareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Awdurdod Lletya - Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Claire Incledon a Rhodri Jones a Sera Whitley (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau), Eiliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol) a David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Diolchwyd i'r Cyngorydd Charlie McCoubrey am ei waith a'i gefnogaeth i'r Bwrdd Uchelgais a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig dros y blynyddoedd, gan rannu dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Jason McLellan yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Alwen Williams (Prif Weithredwr)
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Sian Pugh (Cyngor Gwynedd)
- Yana Williams (Coleg Cambria)

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer Eitem 7 gan ei fod yn sylwedydd ar fwrdd Menter Môn, sydd â chysylltiad gyda phrosiect a drafodwyd o fewn yr eitem. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Julie Fallon a Rhun ap Iarll (Prif Weithredwr Cyngor Cyfansoddol) ar gyfer Eitem 8 gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn arwain ar y prosiect hwn. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a ni wnaethant adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ar gyfer Eitem 8 oherwydd bod cysylltiad personol iddo wedi bod ynghlwm â'r prosiect. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

PENDERFYNIAD

- 1. Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**
- 2. Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

TRAFODAETH

Tywyswyd yr Aelodau drwy brif uchafbwyntiau'r chwarter diwethaf megis cymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes Llaeth Defaid Cymru - Hwb Economi Wledig Glynllifon ac Achos Busnes Llawn Diwifr Uwch. Cyfeiriwyd hefyd at Lansiad y Gronfa Ynni Glan ar y 10fed o Orffennaf a bod proses wedi cael ei weithredu ar gyfer penodi dau Ymgynghorydd Anweithredol.

Adroddwyd bod 6 Prosiect yn weithredol ar hyn o bryd, gyda chwe phrosiect arall wedi eu cymeradwyo ond ddim eto yn weithredol hyd yma, gyda thri achos busnes pellach ar y gweill.

Cadarnhawyd bod buddsoddiad y Cynllun Twf i'w brosiectau yn £23,164,812.52 erbyn diwedd yr ail chwarter o'r flwyddyn ariannol gyfredol. Ymhelaethwyd bod cyfanswm o £25,040,328.17 wedi cael ei glustnodi i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau, gan gadarnhau y disgwylir i'r ffigyrau hyn barhau i gynyddu'n raddol, gyda nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill. Cydnabuwyd bod niferoedd o swyddi

sydd wedi eu creu yn isel, gan egluro bod 49 swydd newydd a 49 o swyddi adeiladwaith wedi cael eu creu hyd yma.

Manylwyd ar Gofrestr Risg y Portffolio gan adrodd ei fod yn parhau i fod yn gyson gyda'r datblygiadau a wnaed yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod rhai risgiau uchel yn parhau ar y gofrestr mewn cyswllt â buddsoddiad y sector breifat yn ogystal â thargedau buddsoddi cyffredinol, yn dilyn oediadau. Ymhelaethwyd bod y risg gweddilliol ar deitl 'Fforddiadwyedd' wedi cael ei leihau oherwydd bod cyfran mwy o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo, gan ddarparu sicrwydd eu bod yn fforddiadwy.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i sylwadau a oedd yn nodi bod niferoedd o swyddi sydd wedi cael eu creu yn isel ar hyn o bryd, eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau nad oes modd i'r ffigyrau hyn gynyddu nes bydd mwy o brosiectau yn weithredol, gan gydnabod bod oediad naturiol rhwng ariannu'r prosiectau a sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu. Fodd bynnag, adroddwyd y disgwylir i'r ffigyrau hyn gynyddu yn sylweddol yn fuan iawn gan fod mwy o brosiectau yn weithredol yn ddiweddar, gan gadarnhau bydd diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor hwn. Mewn ymateb i sylwadau pellach, cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau y byddai'r Aelodau yn derbyn crynodeb manwl o'r holl swyddi sydd wedi eu creu, natur y gyflogaeth a'u lleoliadau ar draws rhanbarth y gogledd fel y gellir sicrhau aelodau bod y swyddi yn dod a budd ariannol i unigolion o'r rhanbarth.

Cyflwynwyd sylwadau gan Aelodau bod nifer o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a bydd eu gwerth i'r rhanbarth yn weledol yn y dyfodol, gan ddiolch i'r holl swyddogion am eu gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad.

6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Pleidleisiwyd ar y cynnig i gau allan y wasg a'r cyhoedd a bu i'r Cynghorydd Nia Jeffreys atal ei phleidlais ar yr eitem hon.

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitemau 7 ac 8 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r CBC ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

7. ADOLYGIAD PORTFFOLIO 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau

PENDERFYNWYD

Cytuno ar yr argymhellion sy'n benodol i'r prosiectau a chatau nesaf yr asesiad, yn dilyn cwblhau'r ail adolygiad portffolio.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r penderfyniad a geisir yn ymateb i'r argymhellion a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ym mis Ebrill 2025 fel rhan o'r adolygiad portffolio cyntaf, i gadw pedwar prosiect yn y Cynllun Twf a'i adolygu eto o fewn chew mis.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

8. DYFODOL VENUE Cymru – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf

PENDERFYNWYD

- 1. Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Venue Cymru yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn ystod y drafodaeth, a gofyn i Achos Busnes Lawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.**
- 2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel sail i'r trefniadau cyllido terfynol ar gyfer y prosiect yn amodol ar gymeradwyaeth Achos Busnes Llawn.**
- 3. Cadarnhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn sicrhau caniatâd cynllunio ac yn mynd ymlaen i Achos Busnes Lawn gymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Dyfodol Venue Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Bydd penderfyniad i gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i symud ymlaen i gam nesaf eu proses gymeradwyo Mewnol.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:30.

Cadeirydd



IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

5 Rhagfyr, 2025

TEITL: Diweddariad Achos Busnes y Portffolio 2025 a Chynllun Busnes Cyffredinol

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad 2025 Achos Busnes y Portffolio, Cynllun Busnes Cyffredinol 2026-2030 a chanlyniad Adolygiad Sicrwydd Portffolio 2025 ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 1.2. Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.
- 1.3. Mae'n ofynnol, fel a nodir yn y Cytundeb Cyflawni a Chyllido (Cytundeb Llywodraethu 2 gynt), i bartneriaid Cynllun Twf Gogledd Cymru ddiweddarau'r Cynllun Busnes Cyffredinol bob pum mlynedd.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo diweddariad 2025 Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.
- 2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio gyflwyno'r holl ddogfennaeth ofynnol a'r ffurflen cais i newid i Lywodraethau Cymru a'r DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol a dirprwyo hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog a151 i negodi gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar amseriad dyfarnu'r cyllid ac i wneud unrhyw fân addasiadau ar gais y naill lywodraeth neu'r llall.
- 2.3. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol 2026-2030 wedi'i ddiweddarau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 2.4. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi diweddariad llafar yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio 2025 ac yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Achos Busnes y Portffolio

- 4.2. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 4.3. Mae'r diweddariad blynyddol i Achos Busnes y Portffolio yn ofyniad dan y Cytundeb Twf Terfynol. Mae diweddariad 2025 yn seiliedig ar fformat symlach y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gofnodi newidiadau allweddol ers yr iteriad diwethaf.
- 4.4. Mae'r achos busnes a'r atodiadau wedi'u hadolygu'n llawn gyda'r newidiadau allweddol wedi'u hamlinellu yn y tablau isod:

Achos	Crynodeb o'r newidiadau allweddol
Yr Achos Strategol	• Ychwanegwyd manylion polisiâu a mentrau strategol newydd (ers diweddariad 2024) sy'n berthnasol i'r portffolio. Gweler tabl 1.1 • Ychwanegwyd manylion am newidiadau i'r cyd-destun macro-economaidd. Gweler tabl 1.2 • Diweddarwyd tabl risgiau mawr 1.4 • Mae crynodeb o fân newidiadau pellach i'r achos strategol portffolio wedi'i ddarparu. Gweler tabl 1.5
Yr Achos Economaidd	• Derbyniodd wyth prosiect gymeradwyaeth Achos Busnes Llawn; ○ Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol Parc Bryn Cegin (Rhaglen Tir ac Eiddo) ym mis Rhagfyr 2024, wedi'i ddilyn yn agos gan yr Achos Busnes Llawn ym mis Chwefror 2025. ○ Cymeradwywyd prosiect Cydnerth (Rhaglen Ynni Carbon Isel) ym mis Chwefror 2025. ○ Cymeradwywyd 4G + (rhaglen Cysylltedd Digidol) ym mis Ebrill 2025. ○ Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn Ynni Lleol Blaengar ym mis Mai 2025. ○ Cymeradwywyd Di-wifr Uwch (rhaglen Cysylltedd Digidol) ym mis Gorffennaf 2025. ○ Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes a Mwy y Porthladd Rhydd (Rhaglen Tir ac Eiddo) ym mis Hydref 2025. ○ Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes a Mwy Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn (Rhaglen Tir ac Eiddo) ym mis Hydref 2025. ○ Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes a Mwy Cymdeithas 5.0 (Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel) ym mis Hydref 2025.

	• Derbyniodd tri Achos Busnes Amlinellol gymeradwyaeth: ○ Cymeradwywyd y prosiect Antur Gyfrifol (rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) ym mis Chwefror 2025. ○ Cymeradwywyd Prosiect Prince (Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel) ym mis Hydref 2025. ○ Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol Venue Cymru (Rhaglen Bwyd Amaeth a Thwristiaeth) ym mis Tachwedd 2025. • Mae canlyniadau'r Achos Cyfiawnhad Busnes cymeradwy ar gyfer Llaeth Defaid Cymru, rhan o Hwb Economi Wledig Glynllifon (rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) hefyd wedi cael eu defnyddio i lywio'r diweddariadau i'r Achos Economaidd. • Mae'r Achos Economaidd wedi'i ddiweddarau i ystyried prosiectau a dynnwyd yn ôl o'r Cynllun Twf neu a symudwyd i'r Rhestr Wrth Gefn yn ogystal â senarios Gorau/Canolig/Gwaethaf ar gyfer ailddyrannu cyllid heb ei ddyrannu i brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn. • Mae prosiectau eraill wedi gweld oedi yn effeithio ar broffil costau a buddion.
Yr Achos Masnachol	• Ychydig iawn o newid fu i achos masnachol y portffolio. • Mae wyth caffaeliad wedi digwydd yn y 12 mis diwethaf, sy'n cynnwys: Hwb Economi Wledig Glynllifon, Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+, Cydnerth, Cronfa Ynni Glân, Egni, LPWAN, 4G+ a'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol. • Mae caffael hefyd wedi digwydd ar gyfer ffrydiau gwaith a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan gynnwys Dichonoldeb Ynni Glân (Rhaglen Ynni Carbon Isel), Offer Arolwg Rhwydwaith Symudol (Rhaglen Cysylltedd Digidol), treialon IoT Amaethyddiaeth Glyfar (Rhaglen Cysylltedd Digidol). Mae'r caffaeliadau hyn yn ychwanegu gwerth ac yn llywio prosiectau o fewn y rhaglen Ynni Carbon Isel a'r rhaglen Cysylltedd Digidol.
Yr Achos Ariannol	• Mae'r achos ariannol wedi'i ddiweddarau gyda siartiau a thablau, i gyfrif am yr Achosion Busnes Amlinellol, yr Achosion Cyfiawnhad Busnes a'r Achosion Busnes Llawn sydd wedi'u cymeradwyo. • Mae'r Achos Ariannol wedi'i ddiweddarau i ystyried prosiectau a dynnwyd yn ôl o'r Cynllun Twf neu a symudwyd i'r Rhestr Wrth Gefn yn ogystal â senarios Gorau/Canolig/Gwaethaf ar gyfer ailddyrannu cyllid heb ei ddyrannu i brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn.
Yr Achos Rheoli	• Wedi darparu diweddariadau i Strwythur Cyflawni'r Cynllun Twf, yn dilyn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan

	gynnwys trosglwyddo'r Swyddfa Rheoli Portffolio, y Cynllun Twf a'i holl gyllid i CBC y Gogledd. • Wedi darparu diweddariadau i dabl cryno'r adolygiad Porth. Mae 2 brosiect wedi symud drwy'r broses sicrwydd ac aliniad gyda'r disgwyliadau ers y portffolio blaenorol. • Mae proses Cymeradwyo Symlach wedi'i chymeradwyo a'i chyflwyno.
--	--

Cynnydd yn erbyn amcanion gwariant

4.5. Amcan Gwariant 1 – Swyddi Net

Yn nodedig, rhagwelir y bydd y swyddi newydd net yn dod o fewn yr amrediad a amlinellir yn Amcan Gwariant 1 (creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yng Ngogledd Cymru dwy'r Cynllun Twf erbyn 2036). Mae'r ystod a ragwelir ar hyn o bryd rhwng 3,540 a 4,170 o swyddi newydd net wedi'u creu ac mae hyn yn cynnwys senarios Gorau/Canolig/Gwaethaf ar swyddi newydd net a grëir drwy ailddyrannu cyllid heb ei ddyrannu i brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn.

4.6. Amcan Gwariant 3 - Buddsoddiad

Mae cyfanswm y buddsoddiad diweddaraf yn rhagweld y bydd y prosiectau yn dod â chyfanswm buddsoddiad rhwng £820m a £970m. Mae'r rhagolwg hwn yn cynnwys senarios Gorau/Canolig/Gwaethaf ar fuddsoddiad a grëir drwy ailddyrannu cyllid heb ei ddyrannu i brosiectau Rhestr Wrth Gefn. Dangosodd hyn botensial y portffolio i gyrraedd yn agos at y targed gwreiddiol o £1bn yn y senario gorau, gan hefyd dynnu sylw at lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r senario gwaethaf. Mae'r ystod yn tynnu sylw at yr heriau wrth ddisodli rhai o'r prosiectau mwy a dynnwyd o'r Cynllun Twf yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae proffil gwariant cyfalaf dros dymor y Cynllun Twf wedi'i gynnwys yn Atodiad Kb.

4.7. GVA

Disgwylir i raglenni'r Cynllun Twf gynhyrchu cyfanswm o £1.5 i £1.7 biliwn mewn GVA ychwanegol net. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 "nid oes gofyniad gan y llywodraeth (DU na LIC) bellach i olrhain a chysylltu GVA gyda phortffolio'r cynllun twf yn uniongyrchol". Fodd bynnag, er cysondeb, mae'n dal yn cael ei broffilio yn y ddogfen hon.

4.8. I grynhoi, mae Achos Busnes y Portffolio 2025 yn dangos sut y gall Cynllun Twf Gogledd Cymru barhau i gyflawni'r targedau swyddi net a buddsoddi y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Terfynol, tra bod yr ystod a gyflwynir ar gyfer pob targed yn adlewyrchu lefel y risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r targedau uchelgeisiol gwreiddiol. Cyflwynir y Senarios Gorau/Canolig/Gwaethaf i roi asesiad gonest i'r Is-bwyllgor a Llywodraeth y DU a Chymru o'r cyflawniad posibl, effaith y newidiadau sylweddol a wnaed gan y Cynllun Twf yn ystod y 12 mis diwethaf a graddfa'r heriau sydd o'n blaenau.

4.9. Cynllun Busnes Cyffredinol

4.10. Y Cynllun Busnes Cyffredinol cyntaf 2020-2025 oedd y sail y gwnaeth y partneriaid ymrwymo i Gynllun Twf Gogledd Cymru arni. Rhoddodd drosolwg o'r cynllun twf gan gynnwys y rhaglenni a'r prosiectau i'w cyflawni, fe nododd beth fydd y Cynllun Twf yn ei gyflawni yn nhermau

allbynnau a buddion i'r rhanbarth, cyfraniadau ariannol bob partner a threfniadau rheoli perfformiad a llywodraethu i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf.

- 4.11. Mae'r Cynllun Busnes Cyffredinol ar gyfer 2026-2030 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf, golwg i'r dyfodol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ynghyd â gwybodaeth am y bartneriaeth, y Cynllun Twf, ei gyllid a'i lywodraethu.

- 4.11. Mae copi o'r Cynllun Busnes Cyffredinol ar gael yn Atodiad 3.

4.12. **Adolygiad Sicrwydd Portffolio 2025**

- 4.13. Cynhaliwyd Adolygiad Portffolio 2025 rhwng 24-27 Tachwedd 2025. Disgwylir i'r adroddiad terfynol i fod ar gael Ddydd Iau 4ydd o Ragfyr ac bydd diweddariad llafar yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfarfod.

5. **GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 5.1. Bydd cymeradwyo diweddariad 2025 Achos Busnes y Portffolio yn galluogi i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gyflwyno'r achos busnes fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

- 5.2. Gan fod gwariant presennol hyd at ddiwedd 2025-26 yn llai na'r hyn sydd wedi'i dderbyn mewn taliadau grant gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bydd y Cyfarwyddwr Portffolio yn negodi gyda'r ddwy lywodraeth o ran y trosglwyddiad arian nesaf. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn dal i aros am gadarnhad o statws grant y Cynllun Twf a ohiriwyd o 2024/25.

- 5.3. Nid yw'r achos busnes wedi'i ddiweddarau yn effeithio ar gyfraniadau cytunedig y partneriaid ar gyfer 2025-26 sydd wedi'u cytuno gan Uchelgais Gogledd Cymru. Yn sgil y newidiadau i amserlenni a phroffiliau gwariant y prosiectau, cynnydd mewn cyfraddau llog, a'r newidiadau tebygol yn lefel y grant Ardrethi Annomestig, bydd y gofynion llog a lefelau cyfraniad pob partner o 2025-26 ymlaen yn cael ei ailgyfrifo yn y misoedd nesaf.

- 5.4. Mae Achos Busnes y Portffolio wedi'i ddiweddarau yn nodi senario Gorau/Canolig/Gwaethaf o ran sicrhau buddsoddiad drwy ailddyrrannu cyllid heb ei ddyrrannu i brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn. Mae hwn yn ddull darbodus o ddangos yr ystod y gellir ei gyflawni o benderfyniadau yn y dyfodol a wneir gan yr Is-bwyllgor mewn perthynas ag ailddyrrannu cyllid.

6. **GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 6.1. Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.

- 6.2. Mae'n ofynnol dan y Cytundeb Cyflawni a Chyllido (Cytundeb Llywodraethu 2 gynt) bod y Cynllun Busnes Cyffredinol yn cael ei ddiweddarau a'i gymeradwyo gan bartneriaid bob 5 mlynedd. Mae'n ddogfen allweddol mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Twf. Mae cynnwys y Cynllun yn creu disgwyliad dilys y bydd y Cynllun Twf yn cael ei symud ymlaen fel y nodir yn y Cynllun. Yn unol â hynny, mae'n bwysig bod pob Partner yn fodlon â chynnwys y Cynllun Busnes Cyffredinol.

7. **ASESIADAU EFFAITH**

- 7.1. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru, drwy ei raglenni a'i brosiectau ynghyd â'r prosesau a roddwyd ar waith yn sicrhau bod y Cynllun Twf yn cyflawni effaith gadarnhaol yn erbyn y 7 nod llesiant.

- 7.2. Bydd gan y Cynllun Twf effaith niwtral ar gydraddoldeb yn erbyn yr 11 nodwedd warchodedig. Mae'r holl raglenni a'r prosiectau yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau ranbarthol, ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl sydd o dan anfantais oherwydd rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran.
- 7.3. Bydd cyflawni rhaglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf yn cael effaith bositif ar y Gymraeg, gan fynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhanbarth.
- 7.4. Cwblheir Asesiad Effaith Unigol ar gyfer pob prosiect fel rhan o ddatblygu'r Achos Busnes.

ATODIADAU:

Atodiad 1	Crynodeb Gweithredol yr Achos Busnes y Portffolio 2025
Atodiad 2	Achos Busnes y Portffolio 2025
Atodiad 3	Cynllun Busnes Cyffredinol 2026-2030

*Sylwch fod yr atodiadau sy'n weddill y cyfeirir atynt yn Achos Busnes y Portffolio ar gael ar gais i'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

DOGFENNAU CEFNDIR (ar gael ar gais)

- Achos Busnes y Portffolio 2025 – Atodiadau

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

"Mae nifer o benderfyniadau allweddol i'r Is-bwyllgor mewn perthynas ag Achos Busnes Portffolio ond hefyd â'r Cynllun Busnes Amlinellol. Fel rhan o'r Cytundeb Trosglwyddo a Chyllido, mae gan y CBC y pŵer i ddiweddarw'r OBC o bryd i'w gilydd. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymgorffori gwybodaeth am newidiadau a datblygiadau ers eu mabwysiadu ac maent o fewn pwerau'r CJC.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Rwy'n fodlon bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad teg a chywir o weithgareddau Uchelgais Gogledd Cymru a'i sefyllfa bresennol. Gallaf gadarnhau cywirdeb y wybodaeth ariannol a gynhwysir yn yr adroddiad clawr hwn ac yn yr Atodiad, ac maent yn esbonio'r ystyriaethau ariannol ar gyfer y cyfnod sydd i ddod."



ACHOS BUSNES PORTFFOLIO

ATODIAD

TACHWEDD 2025



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales
2024

Trosolwg Gweithredol

Diben yr achos busnes portffolio strategol hwn yw arddangos y dewis gorau posib o raglenni a phrosiectau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Achos busnes y portffolio oedd y sylfaen y llofnodwyd y Cytundeb Twf Terfynol arni rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn seremoni rithiol ar 17 Rhagfyr 2020. Achos Busnes Portffolio 2022 yw'r brif ddogfen sy'n darparu gwaelodlin ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru. Fel rhan o'r broses diweddariad blynyddol y cytunwyd arni gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, mae atodlen i'r achos busnes yn cael ei baratoi i ddarlunio unrhyw newidiadau perthnasol dros y flwyddyn a fu. **Mae'r Atodlen yn arddangos y newidiadau a wnaed i'r achos busnes portffolio strategol o fis Medi 2024 ymlaen. Dylid darllen yr Atodlen hon ar y cyd â'r brif ddogfen ac unrhyw Atodlen flaenorol wedi'i diweddaru.**

Yr Achos Strategol

Diweddariad Tachwedd 2025 – Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r Achos Strategol

- Ychwanegwyd manylion polisiau a mentrau strategol newydd (ers diweddariad 2024) sy'n berthnasol i'r portffolio. Gweler tabl 1.1
- Ychwanegwyd manylion am newidiadau i'r cyd-destun macro-economaidd. Gweler tabl 1.2
- Diweddarwyd tabl risgiau mawr 1.4
- Mae crynodeb o fân newidiadau pellach i'r achos strategol portffolio wedi'i ddarparu. Gweler tabl 1.5

Yr Achos Economaidd

Diweddariad Tachwedd 2025 – Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r Achos Economaidd

- Derbyniodd wyth prosiect gymeradwyaeth Achos Busnes Llawn; Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol Parc Bryn Cegin (Rhaglen Tir ac Eiddo) ym mis Rhagfyr 2024, wedi'i ddilyn yn agos gan yr Achos Busnes Llawn ym mis Chwefror 2025; cymeradwywyd prosiect Cydnherth (Rhaglen Ynni Carbon Isel) ym mis Chwefror 2025; Cymeradwywyd y rhaglen 4G + (Cysylltedd Digidol) ym mis Ebrill 2025; Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn Ynni Lleol Blaengar ym mis Mai 2025. Cymeradwywyd y rhaglen Di-wifr Uwch (Cysylltedd Digidol) ym mis Gorffennaf 2025. Ym mis Hydref 2025 derbyniodd tri o'r prosiectau rhestr wrth gefn gymeradwyaeth i'w Hachosion Cyfiawnhad Busnes, y Porthladd Rhydd (Rhaglen Tir ac Eiddo), Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn (Rhaglen Tir ac Eiddo) a Chymdeithas 5.0 (Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel).
- Derbyniodd tri Achos Busnes Amlinellol gymeradwyaeth. Cymeradwywyd y prosiect Antur Gyfrifol (rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) ym mis Chwefror 2025. Gyda Phrosiect Prince (Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel) wedi'i gymeradwyo ym mis Hydref 2025. Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol Dyfodol Venue Cymru ym mis Tachwedd 2025.
- Mae canlyniadau'r Achos Cyfiawnhad Busnes cymeradwy ar gyfer Llaeth Defaid Cymru, rhan o Hwb Economi Wledig Glynllifon (rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) hefyd wedi cael eu defnyddio i lywio'r diweddariadau i'r Achos Economaidd.

- Mae'r Achos Economaidd wedi cael ei ddiweddarau i ystyried prosiectau a dynnwyd yn ôl o'r Cynllun twf, neu a symudwyd i'r Rhestr wrth gefn, yn ogystal a senarios Achos Gorau/Canolig/Gwaethaf ar gyfer ail ddyrannu y cyllid sydd heb ei glustnodi i brosiectau ar y Rhestr wrth Gefn.
- Mae nifer o brosiectau wedi gweld oedi yn effeithio ar broffil costau a buddion.
- Disgwylir i raglenni'r Cynllun Twf gynhyrchu cyfanswm o £1.5 i £1.7 biliwn mewn GVA ychwanegol net, a 3,540 i 4,170 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ychwanegol net. Felly, rhagwelir na fydd y Cynllun Twf yn cyrraedd Amcan Gwariant 2 (Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036). Mae hyn yn bennaf oherwydd oedi wrth i brosiectau portffolio symud y llinell amser ar gyfer twf GVA a ragwelir y tu allan i'r cyfnod arfarnu economaidd gwreiddiol (15 mlynedd o 2020/21). Dylid nodi er bod y lleihad mewn GVA o brosiectau sydd wedi'u hoedi yn y portffolio yn cael ei leddfu'n rhannol drwy brosiectau sy'n symud i'r cyfnod Achos Busnes Amlinellol, mae'r oedi yn peri gostyngiad net yn y GVA cronus erbyn 2036.
- Ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd Llywodraethau'r DG a Chymru: "nid oes gofyniad llywodraethol (LlyDU na LIC) i olrhain a chysylltu GVA yn uniongyrchol gyda phortffolio'r cynllun twf". Fodd bynnag, er cysondeb, mae'n dal yn cael ei broffilio yn y ddogfen hon.
- Yn nodedig, mae'r swyddi net a ragwelir yn dod o fewn yr amrediad a amlinellir yn Amcan Gwariant 1 (Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi net* yng Ngogledd Cymru trwy'r Cynllun Twf erbyn 2036). Mae hyn oherwydd y bydd prosiectau sydd wedi'u hoedi yn dal i greu swyddi cyn 2036.
- Mae'r rhagolwg diweddaraf yn dangos bod y prosiectau yn dod â chyfanswm buddsoddiad o rhwng £0.82 a £0.97 – ychydig yn llai na'r targed o £1 biliwn yn Amcan Gwariant 3.
- Mae Cymhareb Budd Cost 2025 yn erbyn costau'r Cynllun Twf yn 3.9-4.4: 1. Mae hwn yn ostyngiad o 1.3-2.0 ers diweddariad 2024.

Yr Achos Masnachol

Diweddariad Tachwedd 2025 – Crynodeb o'r newidiadau allweddol

- Mae'r newid i achos masnachol y portffolio wedi bod yn finial.
- Mae wyth caffaeliad wedi digwydd yn y 12 mis diwethaf, sy'n cynnwys: Hwb Economi Wledig Glynlifon, Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+, Cydnerth, Cronfa Ynni Glân, Egri, LPWAN, 4G+ a'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol.
- Mae caffael hefyd wedi digwydd ar gyfer ffrydiau gwaith a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan gynnwys Dichonoldeb Ynni Glân (Rhaglen Ynni Carbon Isel), Offer Arolwg Rhwydwaith Symudol (Rhaglen Cysylltedd Digidol), treialon IoT Amaethyddiaeth Glyfar (Rhaglen Cysylltedd Digidol). Mae'r caffaeliadau hyn yn ychwanegu gwerth ac yn llywio prosiectau o fewn y rhaglen Ynni Carbon Isel a'r rhaglen Cysylltedd Digidol.

Yr Achos Ariannol

Diweddariad Tachwedd 2025 – Crynodeb o'r newidiadau allweddol


- Mae'r achos ariannol wedi'i ddiweddarau gyda siartiau a thablau, i gyfrif am yr Achosion Busnes Amlinellol, yr Achosion Cyfiawnhad Busnes a'r Achosion Busnes Llawn sydd wedi'u cymeradwyo.
- Mae'r Achos Ariannol wedi cael ei ddiweddarau i ystyried prosiectau a dynnwyd yn ôl o'r Cynllun twf, neu a symudwyd i'r Rhestr wrth gefn, yn ogystal a senarios Achos Gorau/Canolig/Gwaethaf ar gyfer ail ddyrannu y cyllid sydd heb ei glustnodi i brosiectau ar y Rhestr wrth Gefn.

Yr Achos Rheoli

Diweddariad Tachwedd 2025 – Crynodeb o'r newidiadau allweddol

- Wedi darparu diweddariadau i Strwythur Cyflawni'r Cynllun Twf, yn dilyn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan gynnwys trosglwyddo'r Swyddfa Rheoli Portffolio, y Cynllun Twf a'i holl gyllid i CBC y Gogledd.
- Wedi darparu diweddariadau i dabl cryno'r adolygiad Porth. Mae 2 brosiect wedi symud drwy'r broses sicrwydd ac aliniad gyda'r disgwyliadau ers y portffolio blaenorol.
- Mae proses Cymeradwyo Symlach wedi'i chymeradwyo a'i chyflwyno.

Figure 1.1.1 Model Rhesymeg y Portffolio



Ffynhonnell: Hatch; Uchelgais Gogledd Cymru. Nodyn ar Fethiant y Farchnad: **Allanoldebau cadarnhaol:** buddion economaidd/cymdeithasol/amgylcheddol trydydd parti i'r economi/cymdeithas ehangach. Ni all sefydliadau masnachol ddal y rhain i gyd felly mae angen buddsoddiad cyhoeddus. **Methiant gwybodaeth:** nid oes gan fusnesau'r wybodaeth gyflawn am dechnolegau/datblygiadau a allai sicrhau twf. Mae angen buddsoddiad cyhoeddus i bontio'r bylchau gwybodaeth hyn. **Methiant cydlyn:** mae'n bosib nad oes gan un sefydliad yn unig y cymhelliant i fuddsoddi mewn menter sy'n sicrhau buddion i bartneriaid ehangach. Mae angen buddsoddiad cyhoeddus i symblu buddsoddiad partneriaeth.



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales

Cynllun Twf Gogledd Cymru: Cynllun Busnes Cyffredinol 2026 - 2030



Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Pwrpas	5
Partneriaeth Uchlegais Gogledd Cymru	6
Y Cynllun Twf	7
Edrych yn ôl dros y 5 mlynedd cyntaf	14
Edrych ymlaen i 2030	21
Llywodraethu	22
Ariannu	24

Rhagair

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mynd drwy gyfnod o drawsnewid sylweddol. Mae'r bartneriaeth, a sefydlwyd yn wreiddiol fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, wedi esblygu o ran strwythur ac uchelgais. Ym mis Ebrill 2025, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Twf i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan nodi pennod newydd yn ein dull cydweithredol o ddatblygu economaidd yn y rhanbarth. Mae'r newid hwn yn dwyn ynghyd y chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ochr yn ochr â'n partneriaid gwerthfawr ym maes addysg uwch a addysg bellach, o dan weledigaeth unedig ar gyfer Gogledd Cymru.

Wrth edrych yn ôl ar ein taith ers lansio'r Cynllun Busnes Cyffredinol cyntaf yn 2020, rydym wedi wynebu heriau sylweddol – digwyddiadau byd-eang, ansicrwydd economaidd, a'r angen i addasu ein portffolio i amgylchiadau sy'n newid. Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae ein partneriaeth wedi cyflawni cynnydd. Rydym wedi gweld dros £28m yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau trawsnewidiol, creu swyddi newydd, a gosod y sylfeini ar gyfer twf cynaliadwy. Mae prosiectau fel y Ganolfan Prosesu Signal Digidol ym Mhrifysgol Bangor, y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter, a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth wedi symud o gysyniad i gyflawni, gan ddangos ein gallu i drosi ein uchelgais i fod yn weithredol.

Wrth i ni edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, mae ein hymrwymiad yn parhau. Mae'r trosglwyddiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn darparu llwyfan cryf ar gyfer cyflawni, llywodraethu ac atebolrwydd. Erbyn 2030, bydd holl brosiectau'r Cynllun Twf yn weithredol, gan wneud y mwyaf o effaith ein buddsoddiadau a chreu'r amodau ar gyfer economi fywiog, gwydn a chynhwysol. Bydd ein ffocws ar sbarduno creu swyddi newydd, denu buddsoddiad pellach, a sicrhau bod buddion twf ar draws pob cymuned yng Ngogledd Cymru.

Gyda'n gilydd, rydym yn symud ymlaen gyda hyder, yn unedig yn ein huchelgais i adeiladu dyfodol ffyniannus i Ogledd Cymru.



Cyng Mark Pritchard

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor
Corfforedig y Gogledd



Cyng Jason McLellan

Is-Gadeirydd Cyd-Bwyllgor
Corfforedig y Gogledd

Crynodeb Gweithredol

Ers ei sefydlu bum mlynedd yn ôl, mae Uchelgais Gogledd Cymru nid yn unig wedi tyfu o ran graddfa, ond o ran gallu a chydlyniant hefyd, gan gryfhau ein hymrwymiad ar y cyd i adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a chynhwysol ar gyfer y Gogledd. Diolch i ymrwymiad diwro'r bartneriaeth, rydym wedi cyflawni cynnydd diriaethol ac ystyrlon.

Mae'r Cynllun Twf yn feiddgar yn ei uchelgais sydd wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â methiannau cronig y farchnad - rhwystrau a fyddai, heb gyllid cyhoeddus, yn parhau i gyfyngu ar fuddsoddiad y sector preifat a ffyniant rhanbarthol. Hyd yn hyn, mae gwariant wedi'i ddominyddu gan ymyrraeth y sector cyhoeddus, gan dargedu'r methiannau marchnad hyn a fyddai fel arall yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol i dwf.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi llywio heriau sylweddol, o ddigwyddiadau byd-eang i ansicrwydd economaidd, gan addasu ein portffolio i ddiwallu anghenion cyfnewidiol. Er gwaetha'r rhwystrau hyn, rydym yn falch o fod wedi cyflawni dros £28 miliwn mewn prosiectau trawsnewidiol, gyda £25 miliwn yn cael ei ariannu'n uniongyrchol drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru. Er bod nifer y prosiectau, y gwariant a'r swyddi sydd wedi'u creu hyd yma yn is na'r rhagolygon cychwynnol, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld newidiadau mawr i'r Cynllun Twf a'r prosesau i gyflymu cyflawni, gan arwain at fwy o brosiectau yn cyflawni ac achosion busnes wedi'u cymeradwyo - gan ddarparu llwyfan cryf ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Wrth edrych ymlaen, mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu ar adeiladu a chryfhau cydweithrediad â phartneriaid, arianwyr ac ar draws diwydiant a sectorau. Drwy weithio ar y cyd i wella seilwaith a chreu'r amodau ar gyfer buddsoddiad parhaus yn y sector preifat, rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer economi ffyniannus yn y Gogledd. Bydd y pum mlynedd nesaf yn hollbwysig, wrth i ni gyflymu'r cyflawniad, gwneud y mwyaf o effaith ein buddsoddiadau, a sicrhau bod buddion twf yn cyrraedd pob cymuned ledled y Gogledd.

Gyda chwe phrosiect yn cyflawni a phiblinell gref o brosiectau i ddilyn yn fuan, rydym yn hyderus y bydd pob prosiect o fewn y Cynllun Twf yn cyflawni erbyn 2030, gan gyflawni'r buddion a fwriadwyd a gwneud y gorau o'r effaith yn y rhanbarth erbyn 2036 a thu hwnt. Mae ein hymrwymiad cydweithredol cryf yn amlwg yn y cynnydd sydd wedi'i wneud a'r gwytnwch sydd wedi'i ddangos wrth oresgyn heriau.

Mae'n anrhydedd arwain tîm mor flaengar ac ymroddedig. Rydym ar ddechrau cyfnod pontio cyffrous i'r Gogledd, gyda sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a gefnogir gan gydweithrediad ac ymrwymiad parhaus ein Pwyllgor, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid. Gyda'n gilydd, rydym yn gyrru cynnydd gwirioneddol ac yn creu effaith barhaol ar y Gogledd a chenedlaethau'r dyfodol.



Alwen Williams

Prif Weithredwr
Uchelgais Gogledd Cymru

Tud. 33



Pwrrpas

Y Cynllun Busnes Cyffredinol cyntaf 2020-2025 oedd y sail y gwnaeth y partneriaid ymrwymo i Gynllun Twf Gogledd Cymru arni. Rhoddodd drosolwg o'r cynllun twf gan gynnwys y rhaglenni a'r prosiectau i'w cyflawni, fe nododd beth fydd y Cynllun Twf yn ei gyflawni yn nhermau allbynnau a buddion i'r rhanbarth, cyfraniadau ariannol bob partner a threfniadau rheoli perfformiad a llywodraethu i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf.

Mae'r Cynllun Busnes Cyffredinol hwn 2026-2030 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf, golwg i'r dyfodol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ynghyd â gwybodaeth am y bartneriaeth, y Cynllun Twf, ei gyllid a'i lywodraethu.

Partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru

Sefydlwyd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi'r Gogledd. Roedd y bartneriaeth yn cwmpasu'r chwe ardal awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn cynnwys cyngorau Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Roedd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

Yn 2021 cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Uchelgais Gogledd Cymru fel brand newydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd, Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Twf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac mae ganddo gyfrifoldebau newydd ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol yn ogystal â chyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd gogledd Cymru.

Cytunodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i fabwysiadu brand Uchelgais Gogledd Cymru.



Cefndir y Cynllun Twf

Ein taith i sicrhau'r cynllun twf

Daeth Cynlluniau Twf i'r amlwg yn gyntaf yn sgil llywodraeth glymbleidiol San Steffan rhwng 2010 a 2015 fel rhan o'i chynllun hirdymor i roi hwb i economïau lleol. Diben y Cynlluniau Dinasoedd a Thwf yw cefnogi dinasoedd a rhanbarthau i gyflawni strategaethau lleol ymatebol a hyblyg. Maent wedi'u dylunio i hyrwyddo datganoli a symbylu twf economaidd a lleol drwy roi mwy o bŵer a hyblygrwydd i ranbarthau, er mwyn gwneud yr achos dros fuddsoddiad a gyrru gweithgaredd a thwf economaidd cynhwysol.

Mewn ymateb i'r polisi hwn, sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais Economaidd gan bartneriaid ledled y Gogledd yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi'r Gogledd.

Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (y Weledigaeth Twf).

Yng Nghyllideb yr hydref 2017, datganodd Llywodraeth y DU y byddai'n dechrau trafodaethau i gytuno ar Gynllun Twf i Ogledd Cymru. Yn dilyn y datganiad hwn, gweithiodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddatblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru, a amlinellwyd yn y Ddogfen Gynnig.

Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, cytunwyd ar y Ddogfen Gynnig gan bartneriaid y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Hydref 2018. Gosododd hyn becyn arfaethedig o 24 o brosiectau trawsffurfiol ar draws naw rhaglen strategol, gan geisio £334.5m o arian cyfalaf a £8m o arian refeniw gan y Cynllun Twf. Cafodd y rhaglenni eu diffinio fel grŵp o brosiectau cysylltiedig sydd wedi'u rheoli mewn ffordd gydlynol i sicrhau buddion a chyflawni'r Weledigaeth a'r Nodau cyffredinol.

Yng Nghyllideb yr hydref 2018, fe wnaeth Canghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Phillip Hammond AS, gyhoeddi £120 miliwn o gyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gadarnhau y byddai'n cynnig arian cyfatebol i gyfraniad ariannol Llywodraeth y DU at Gynllun Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau ymrwymiad o £240m fel cyfraniad grant mewn cyllid cyfalaf gan y Llywodraethau.

Parhad....

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn ac mewn ymateb i ddymuniad Llywodraeth y DU i weld portffolio wedi'i gydgrynhoi o brosiectau uchelgeisiol, a chan fod yr arian a ymrwymwyd yn llai na sgôp gwreiddiol y cynnig ac yn gyllid cyfalaf yn unig, datblygodd a chytunodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar Gynllun Gweithredu Drafft, gan nodi pecyn wedi'i liflinio o 14 o brosiectau trawsffurfiol, a gyflwynwyd i'r ddwy lywodraeth ym mis Mawrth 2019.

Daeth y Cynllun Gweithredu Drafft yn sail i'r cytundebau Penawdau'r Telerau a lofnodwyd gan y ddwy lywodraeth ym mis Tachwedd 2019, a sicrhau, mewn egwyddor, £240m o gyllid cyfalaf i Gynllun Twf Gogledd Cymru. Roedd y Penawdau'r Telerau yn ymrwmo'r holl bartion i gwblhau Cytundeb Terfynol o fewn 12-15 mis, a fyddai, wedi'i gyflawni, yn gweld cyllid yn cael ei ryddhau o'r llywodraethau i'r rhanbarth. Mae'r achos busnes cyffredinol hwn yn ffurfio rhan o'r broses y cytunwyd arni i gyflawni'r Cytundeb Terfynol.

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb tair ochrog, a lofnodwyd ym mis Rhagfyr 2020 rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac mae wedi sicrhau cyllid o £240miliwn gan Lywodraethau i fuddsoddi yn economi gogledd Cymru fel rhan o'r cynllun £1bn.

Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng ngogledd Cymru. Mae'n adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Y dull yw hyrwyddo twf mewn ffordd raddadwy, gynhwysol a chynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Cynllun Twf

Our Ambition

To be a confident and cohesive, focused on improving the region's economic, social and environmental well-being.

To see the region develop in a sustainable way, with opportunities for people to gain new skills, develop rewarding careers, for businesses to grow and communities to prosper.

To do this while championing the Welsh language, our culture and heritage, in line with the well-being goals for Wales.

Investment



£240M

Growth Deal target investment



Total Target Investment:
over **£1bn**

Job Creation



Create up to
4,200
new jobs

Cynllun Twf

Cwmpas y rhaglenni



Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Nod y rhaglen hon yw hyrwyddo a chefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.



Cysylltedd Digidol

Mynd i'r afael â heriau cysylltedd o fewn y rhanbarth, gan wella'r gallu i ddatblygu technolegau newydd ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gall busnesau a thrigolion elwa o gysylltedd cyflym, ansawdd uchel.



Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.



Tir ac Eiddo

Mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau. Datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.



Ynni Carbon Isel

Datgloi buddion datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan sefydlu Gogledd Cymru fel un o'r lleoliadau arweiniol ar gyfer y sector ynni carbon isel.

Strategaethau ac Egwyddorion Allweddol Caffael/Gwerth Cymdeithasol

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu egwyddorion caffael cadarn i ategu'r holl weithgareddau ar draws y bartneriaeth. Mae'r strategaeth wedi'i chynllunio i sicrhau bod prosesau caffael yn effeithiol, yn deg ac yn dryloyw, gan ddarparu gwerth am arian a gwerth cymdeithasol mesuradwy.

Nod y dull hwn yw gwneud y mwyaf o fanteision rhanbarthol buddsoddiadau'r Cynllun Twf drwy ymgorffori gwerth cymdeithasol ym mhob cam o gyflawni prosiectau. Mae hefyd yn annog cwmnïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol—sydd yn aml yn y sefyllfa orau i ddarparu buddion cymunedol—i gystadlu am gontractau. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, gan sicrhau bod twf economaidd yn cael ei gyflawni law yn llaw â buddion amgylcheddol a chymunedol.

Rhwydwaith Twristiaeth Talent

Mae contract gwerth £2.9M wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu dwy is-ganolfan o fewn y rhaglen. Mae'r ddwy is-ganolfan wedi ymrwymo i ddefnyddio'r un cyflenwr, a fydd yn darparu cynnig Gwerth Cymdeithasol cryf, gan gynnwys:

- Hyrwyddo manteision yr economi cylchol i fusnesau lleol
- Buddsoddi mewn hyrwyddo mannau gwyrdd a bioamrywiaeth mewn lleoliadau addysg lleol
- Cyfrannu amser ac adnoddau i gefnogi addysg amgylcheddol ac ymgysylltu â'r gymuned
- Cefnogi gweithgareddau cwricwlwm STEM mewn ysgolion a cholegau lleol



CanfodAU (Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter)

Mae contract gwerth £10M+ wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng Ngogledd Cymru, sy'n cael ei gydnabod am ddarparu gwerth cymdeithasol eithriadol. Mae ymrwymadau gwerth cymdeithasol y cyflenwr eisoes yn cael effaith ddiriaethol, gan gynnwys:

- Creu cyfleoedd prentisiaeth lleol
- Cynnal a chreu swyddi lleol
- Darparu cefnogaeth ystyrlon i'r gymuned leol

Cydnherth

Ym mis Ionawr 2025 ceisiodd Menter Môn fel ariannwr y prosiect (gyda mewnbwn a chefnogaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio) gymeradwyaeth (a roddwyd) i ddyfarnu contract yn dilyn proses dendro agored a gwerthuso cynigion. Mae'r contractau yn cyfateb i oddeutu £13,735,000 (heb gynnwys TAW). Mae'r contract mwyaf ar gyfer sifil ar y tir wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng Ngogledd Cymru.

Mae'r cynnig gwerth cymdeithasol yn cyfateb i £50,441.



Strategaethau ac Egwyddorion Allweddol

Masnachol

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o effaith Cynllun Twf Gogledd Cymru drwy sicrhau bod pob prosiect yn cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol yn unol â chanlyniadau strategol. Nod y Cynllun Twf yw denu a throsoli buddsoddiad yn y sector preifat ar draws ei bortffolio, gyda disgwyl i bob prosiect archwilio cyfleoedd buddsoddi masnachol fel benthyciadau, buddsoddiadau, neu drefniadau rhannu elw, yn amodol ar ganllawiau cymorth gwladwriaethol.

Mae potensial sylweddol i gynhyrchu enillion masnachol, yn enwedig o fewn y rhaglenni Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel, gyda'r bwriad y bydd yr enillion hyn - yn amodol ar gytundeb y llywodraeth - yn cael eu hail-fuddsoddi yn y rhanbarth.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion masnachol i lywio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws ar gynaliadwyedd ac ailfuddsoddi, cadw at ofynion rheoli cymhorthdal, ac ail-fuddsoddi gwarged ariannol neu elw a gynhyrchir gan arianwyr prosiectau nid-er-elw. Lle mae prosiectau yn wynebu heriau hyfywedd, bydd cyllid bwlch yn cael ei ystyried. Yn ogystal, mae trefniadau cytundebol wedi'u dylunio i amddiffyn buddiannau hirdymor Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn, gydag enghreifftiau'n cynnwys:



Parc Bryn Cegin

Menter ar y cyd rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru ar Barc Bryn Cegin sy'n darparu ffurflen refeniw flynyddol a chyfran o unrhyw dderbyniad cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer y safle.



Cydnerth

Y model cyllido ar gyfer prosiect Cydnerth yw benthyciad masnachol 100% i Fenter Môn Morlais Cyfyngedig sy'n darparu enillion refeniw o'r llog a'r cyfalaf a ad-dalir i'w ail-fuddsoddi yn y rhanbarth.



Cronfa Ynni Glân

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi lansio'r Gronfa Ynni Glân, sef is-gronfa benthyciad sector preifat a fydd yn darparu enillion refeniw o'r llog a'r cyfalaf a ad-dalir i'w ail-fuddsoddi yn y rhanbarth ac is-gronfa wrth gefn a all ystyried buddsoddiadau ecwiti.

Strategaethau ac Egwyddorion Allweddol

Carbon a Bioamrywiaeth

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi datblygu methodoleg fanwl ar gyfer ein prosiectau, sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer ystyried allyriadau a bioamrywiaeth ym mhob cam o ddatblygu prosiectau. Bydd pob prosiect yn anelu i gyflawni yn erbyn y dyheadau a ganlyn:



I fod yn sero net wrth weithredu




Lleihau allyriadau carbon ymgorfforedig o **40%** yn ystod adeiladu



Gyrru cynnydd o **10%** mewn bioamrywiaeth

Ein nod yw gyrru newid economaidd positif i ogledd Cymru ond nid ar draul ein hamgylchedd. Ni fydd pob prosiect yn gallu cyflawni yn erbyn y tri targed, y nod yw gwthio prosiectau i fod mor uchelgeisiol â phosibl a chyflawni cymaint ag y gellir ei gyflawni gyda'r cyllid sydd ar gael, gan sicrhau bod ein datblygiadau'n cael eu hadeiladu'n gynaliadwy ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi ennill cydnabyddiaeth fel Astudiaeth Achos Arweinyddiaeth yng nghanllawiau cenedlaethol carbon mewn seilwaith y DU PAS 2080



Edrych yn ôl ar y pum mlynedd gyntaf

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n cynnydd dros y pum mlynedd ddiwethaf, gan amlinellu ein cynnydd o ran gweithredu Cynllun Twf trawsnewidiol Gogledd Cymru ynghyd â'r gweithgareddau cyflenwol eraill sydd wedi'u cynnal.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi wynebu hinsawdd economaidd ac ariannol heriol sydd wedi effeithio'n sylweddol ar y cyflymder y gellir cyflawni prosiectau cyfalaf.



Projects in
delivery

6

Projects with Full
Business Case
approved and
moving into
delivery

9



New Jobs
created (direct
and indirect)

49



Construction
Jobs

49



Growth Deal
investment



Total
investment





Parhad...

Cynnydd

Cyfanswm y buddsoddiad hyd at ddiwedd mis Hydref 2025 yw £28.58m gyda £25m o'r buddsoddiad hwnnw yn cael ei ariannu'n uniongyrchol drwy'r Cynllun Twf yn seiliedig ar 6 prosiect yn cyflawni. Mae nifer y prosiectau sy'n cael eu cyflawni, y gwariant hyd yma a'r swyddi a grëwyd hyd yma yn isel o'i gymharu â'r rhagolygon cychwynnol ar gyfer y cynllun twf (gweler yr adran nesaf am fanylion). Fodd bynnag, mae cynnydd dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn sylweddol gyda newidiadau mawr wedi'u gwneud i'r Cynllun Twf a'r prosesau i gyflymu'r cyflawni gan arwain at fwy o achosion busnes yn cael ei cymeradwyo neu eu cyflwyno a darparu llwyfan cryf ar gyfer cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn dangos graddfa barhaus ein huchelgais ar gyfer y rhanbarth a'n gallu i gyflawni effaith wirioneddol, gadarnhaol.

Canolfan Prosesu Signalau Digidol

Y prosiect cyntaf i symud i gyflawni oedd y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol ym Mhrifysgol Bangor, sydd bellach yn y bumed flwyddyn o gyflawni. Mae cam presennol y prosiect yn cynnwys ymgysylltu cynyddol i fynd ar drywydd ymchwil fasnachol gyda busnesau rhanbarthol a gosod rhwydwaith preifat 5G i ddangos manteision y dechnoleg i fusnesau.




Y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter oedd ein prosiect adeiladu cyntaf i gael ei gyflawni ac mae wedi cwblhau'r gwaith adeiladu ar safle Plas Coch, gyda'r adeilad newydd o'r enw CanfodAU ar agor yn swyddogol. Disgwylir i'r gwaith o ddarparu cyfleusterau gwell yn y Ganolfan Opteg yn Llanelwy gwblhau cyn diwedd Mawrth 2026.



Parhad...



Centre for Environmental Biotechnology Plus

Mae'r gwaith adnewyddu ar safle Henfaes prosiect y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol + bellach wedi'i gwblhau. Creu offer newydd a chyfleusterau ehangu newydd i'w defnyddio wrth archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau amgen carbon isel i gynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.


Tourism Talent Network

Lansiwyd y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn swyddogol yn 2024, gyda'r nod o ddatblygu gweithlu gwydn, medrus a pharod ar gyfer y dyfodol i sectorau twristiaeth a lletygarwch y rhanbarth. Cadarnhawyd Zip World a Portmeirion fel partneriaid sail cychwynnol. Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddwyd mai Theatr Clwyd yw'r partner sail diweddaraf, gan gyfrannu ystod eang o gyfleoedd hyfforddi ar draws profiad ymwelwyr, twristiaeth gelfyddydol a diwylliannol, a lletygarwch. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd fel marchnata a chyfathrebu, dyletswyddau rheoli, gwerthu, cydlynu digwyddiadau, a rolau o fewn darpariaeth lletygarwch ac arlwyd newydd Theatr Clwyd.



Clean Energy Fund

Lansiwyd y Gronfa Ynni Glân gwerth £24.6m ar 10 Gorffennaf 2025, ac mae'r gronfa yn cynnwys dwy is-gronfa, gyda CGGC yn gweithio ar y cyd ag Ynni Cymunedol Cymru ar is-gronfa'r sector gwirfoddol; ac UMi yn arwain yr is-gronfa sy'n targedu'r sector preifat.



Cydnerth

Mae prosiect Cydnerth yn cael ei gyflawni ac mae wedi sicrhau tynnu dau fenthyciad i lawr. Bydd prosiect Cydnerth yn diogelu cynllun ynni llanw Morlais sy'n cael ei redeg gan y fenter gymdeithasol, Menter Môn. Trwy fuddsoddi yn ei isadeiledd, bydd y Cynllun Twf yn galluogi capasiti grid 18MW y cynllun i gynyddu dros amser i ganiatáu'r 240MW llawn.



Parhad...

Mae gennym 9 prosiect arall gydag achosion busnes llawn wedi'u cymeradwyo a byddwn yn symud i gyflawni unwaith y bydd y trefniadau angenrheidiol yn eu lle.

Mae'r prosiect 4G+ wedi sicrhau cymeradwyaeth Achos Busnes Amlinellol a Llawn. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â heriau hir sefydlog cwmpas y gwasanaeth symudol ar draws lleoliadau allweddol gan wneud y mwyaf o'r manteision economaidd i'r rhanbarth. Bydd pedwar ymyriad yn mynd i'r afael ag ystod o gyfleoedd gan gynnwys fforwm telathrebu rhanbarthol, gwella mynediad at isadeiledd sy'n eiddo i'r cyhoedd i weithredwyr a chyllid grant i wella cwmpas a chapasiti rhwydwaith 4G yn uniongyrchol.



Mae prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru wedi derbyn cymeradwyaeth Achos Busnes llawn. Gyda buddsoddiad cyfalaf o £107m i'w gyflawni gan Jones Bros, i ailddatblygu'r safle 53 erw, gan gynnwys adfer yr adeilad rhestredig Gradd 2*, cartrefi newydd, mannau gwyrdd, cyfleuster hyfforddi, a gofod masnachol. Cytunwyd ar ddull graddol gan yr Is-bwyllgor ym mis Hydref 2025 a fydd yn gweld rhyddhau £2m cychwynnol o gyllid y Cynllun Twf tuag at gam 1 sy'n cynnwys gwaith lliniaru ecolegol a gwaith clirio safle a gwaith dymchwel i leihau risgiau iechyd a diogelwch ar y safle.

Sicrhodd y prosiect Di-wifr Uwch gymeradwyaeth Achos Busnes Llawn ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r prosiect yn y cyfnod cychwynnol yn canolbwyntio ar ddylunio cyn i'r cyllid cyfalaf gael ei gyflwyno i sefydliadau cymwys. Bydd y prosiect yn darparu cynllun grant i gefnogi defnyddwyr y sector preifat a chyhoeddus i fabwysiadu technolegau diwifr uwch fel 5G, gan rannu cwmpas tebyg i Strategaeth Isadeiledd Diwifr y DU a Rhaglen Rhanbarthau Arloesi 5G y DU.

Mae Timau Dylunio ac Ymgynghori ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru i gael cynllun prosiect a chyflwyno am ganiatâd cynllunio a chaniatadau eraill. Ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi gan Gyngor Gwynedd. Disgwylir i unedau cyflogaeth newydd gael eu darparu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, gan ddarparu 1,730 metr sgwâr o ofod llawr busnes modern, ynni-effeithlon ym Mharc Bryn Cegin.



Parhad...

Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar 19 Gorffennaf 2024. Bydd yn darparu cysylltedd diwifr pŵer isel hygyrch a chost-effeithiol i gefnogi defnyddwyr i fabwysiadu cymwysiadau Rhynggrwyd Pethau. Ar ôl cymeradwyo, mae'r gwaith o gaffael y caledwedd wedi'i baratoi ac mae cynghorau sy'n cymryd rhan wedi datblygu cynlluniau i gynnal y rhwydwaith gan ddefnyddio adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor. Bydd prosiect arall nawr yn cefnogi busnesau fferm i dreialu'r defnydd o'r rhwydwaith newydd i gyflawni manteision busnes a hyrwyddo'r dechnoleg.

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon wedi'i gymeradwyo. Mae'r prosiect yn anelu at gefnogi twf y sector llaeth defaid yng Nghymru i gynnwys sied ddefaid a pharlwr llaeth defaid, er mwyn dangos a hyrwyddo godro defaid fel menter busnes newydd fasnachol hyfyw i ffermwyr defaid Cymru.



Defaid Llaeth Cymru
Dairy Sheep Wales

Mae dau safle ar Ynys Môn a phrosiectau eiddo bellach wedi ymuno â'r Cynllun Twf ac mae ganddynt Gytundeb Achos Cyfiawnhad Busnes, gan symud i Gyflawni.

- Bydd Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn yn cyflawni cyfanswm o 2,200 metr sgwâr o ofod busnes modern ar draws dau safle yn Amlwch.
- Bydd prosiect Porth y Porthladd Rhydd yn caffael, yn dymchwel, yn diheintio, yn creu lleiniau datblygu ac yn darparu gwasanaethau mynediad a phrif gyflenwad i gyn Waith Cemegol Peboc/Eastman ar Ystâd Ddiwydiannol Parc Bryn Cefni. Yn ogystal, bydd pum uned ddiwydiannol ysgafn ar Lain 2 ym Mharc Diwydiannol Tregarnedd a bydd Llain 3 wedi'i lefelu yn barod i'w gwerthu i'r sector preifat i'w datblygu yn y dyfodol.

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiect Cymdeithas 5.0 wedi cael cymeradwyaeth. Nod y prosiect yw gwella'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter gan alluogi i'r diwydiant gael mynediad at ragor o adnoddau peirianeg hynod-fanwl o'r radd flaenaf.





Newidiadau allweddol i'r Portffolio ers 2020

Ers i'r Cynllun Busnes Cyffredinol cyntaf gael ei gymeradwyo, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi gweld oedi sylweddol i'r proffil cyflawni disgwylidig. Gellir priodoli'r oedi hwn yn y lle cyntaf i brosiectau yn optimeiddio ormod o amgylch eu haeddfedrwydd a'u amserlenni cyflawni a'u gallu i symud ymlaen drwy'r broses lywodraethu a sicrwydd yn effeithiol. Gwaethyngwyd hyn gan ddigwyddiadau byd-eang gan gynnwys Covid-19 a'r argyfwng chwyddiant costau sydd wedi arwain at oedi pellach a heriau fforddiadwyedd. Bu heriau cynllunio penodol hefyd yn gysylltiedig â nifer o brosiectau.

O ganlyniad, bu nifer o newidiadau i bortffolio'r Cynllun Twf dros y pum mlynedd gyntaf o gyflawni, yn nodedig:

Tynnwyd prosiect Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan o'r Cynllun Twf ym mis Medi 2022. Roedd y penderfyniad yn dilyn adolygiad Cyngor Sir Ddinbych o'r Cynllun Datblygu Lleol, gyda'r dystiolaeth yn cadarnhau gostyngiad yn yr angen am dai newydd yn Sir Ddinbych, gan arwain at brosiect llawer llai.

Ac yna tynnwyd prosiect Llysfasi yn ôl. Penderfynodd Uchelgais Gogledd Cymru a Choleg Cembria ar y cyd na fyddai prosiect Fferm Sero Net Llysfasi bellach yn cael ei ariannu gan Gynllun Twf Gogledd Cymru. Gyda'r prosiect yn mynd rhagaddo wedi'i ariannu gan ffynonellau eraill gan gynnwys Cronfa Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, a oedd yn cyd-fynd yn agos â nodau addysgol y coleg. Bydd y prosiect yn galluogi i'r diwydiant amaeth elwa o ofod dysgu ac addysgu cyfoes newydd yn Llysfasi, a fydd yn eu cefnogi wrth iddynt ehangu arferion ffermio carbon isel o fewn eu busnesau ac ar draws y sector ffermio.

Ar ôl i'r ddau brosiect hyn gael eu tynnu'n ôl, lansiwyd galwad agored ar gyfer prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Arweiniodd hyn at bum prosiect newydd yn ymuno â'r portffolio:

- Safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy
- Hwb Hydrogen Caergybi
- Stiwdios Cinmel
- Antur Gyfrifol
- Porth Wrecsam

Parhad...

Roedd newid yn y cwmpas ar gyfer prosiect Egni, gyda phenderfyniad i gadw cam 1 y prosiect o fewn y Cynllun Twf, ond tynnu cam 2 y prosiect yn ôl. Mae Cam 1 yn canolbwyntio ar y datblygiad llai yn MSParc.

Derbyniodd Uchelgais Gogledd Cymru yn ffurfiol bod prosiect Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn cael ei dynnu'n ôl o'r Cynllun Twf ym mis Tachwedd 2024. Cadarnhaodd y prosiect ei fod yn mynd rhagddo heb yr angen am £6.4m o gyllid y Cynllun Twf. Roedd y canlyniad llwyddiannus yn bosibl oherwydd y cydweithrediad agos rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a The Circular Economy Developments Ltd, a alluogodd eu buddsoddwyr i ymrwymo i'r cyllid oedd ei angen ar gyfer y gwaith. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y safle.



Yn gynnar yn 2025, cynhaliodd y Swyddfa Rheoli Portffolio Adolygiad Portffolio ar gais y Bwrdd a'r ddwy Lywodraeth. Gwnaed penderfyniadau i:

- Dynnu prosiect presennol Trawsfynydd yn ôl o'r Cynllun Twf, a rhoi cynnig cynllun amgen Trawsfynydd ar y rhestr wrth gefn.
- Tynnu prosiect Yr Ychydig % yn ôl o'r Cynllun Twf.
- Symud prosiect Stiwdios Cinmel i'r rhestr wrth gefn.
- Symud y prosiect H2 Newydd i'r rhestr wrth gefn.
- Tynnu'r prosiect Ffibr Llawn (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig) yn ôl o'r Cynllun Twf.

Sefydlwyd Rhestr Wrth Gefn prosiectau'r Cynllun Twf sy'n cynnwys piblinell gref o brosiectau newydd. Mae prosiectau ar y rhestr wrth gefn yn datblygu eu hachosion busnes i'w cyflwyno ar gyfer penderfyniad pan fydd y meini prawf ynghylch cyflawnadwyedd wedi'u bodloni. Mae'r dull newydd hwn yn dadrsgio cyflawni ar lefel y portffolio a bydd yn cynyddu sicrwydd cyflawni unwaith y bydd achosion busnes yn cael eu cymeradwyo.

Hyd yn hyn mae cyfanswm o bum prosiect o'r rhestr wrth gefn wedi ymuno yn ffurfiol â'r Cynllun Twf yn dilyn cymeradwyaeth achosion busnes. Sef, Porth Porthladd Rhydd, Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn, Prosiect Prince, Cymdeithas 5.0 a Dyfodol Venue Cymru.

Yn ystod mis Hydref 2025 cynhaliodd y Swyddfa Rheoli Portffolio ail Adolygiad Portffolio gan ystyried y prosiectau a oedd yn adrodd yn goch. Gwnaed penderfyniadau i:

- Symud prosiect Porth Caergybi i'r rhestr wrth gefn.
- Symud prosiect Porth y Gorllewin i'r rhestr wrth gefn
- Trosglwyddo prosiect Warren Hall i'r Parth Buddsoddi.
- Cadw Hwb Hydrogen Caergybi am 6 mis arall.

Edrych ymlaen at 2030

Dros y pum mlynedd nesaf, mae ein ffocws ochr yn ochr â'n partneriaid yn parhau heb ei newid. Byddwn yn gyrru ein prosiectau ymlaen i greu swyddi newydd a denu'r buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau ffyniant gogledd Cymru yn y dyfodol. Rydym ar ddechrau newid sylweddol gyda thîm y Swyddfa Rheoli Portffolio a Chynllun Twf Gogledd Cymru bellach wedi'i drosglwyddo i'r Cydbwyllgor Corfforedig.

O ran portffolio'r Cynllun Twf, roeddem bob amser yn deall y byddai ein prosiectau yn cymryd amser i aeddfedu a chyflawni, caiff hyn ei adlewyrchu yn nhymor pymtheg mlynedd y Cynllun Twf. Bu rhai heriau sylweddol hyd yma, er hynny, mae cynnydd yn digwydd ac rydym bellach yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y prosiectau sy'n symud i'r cyfnod cyflawni gan greu'r swyddi cyntaf.

Mae ein dyfodol yn dibynnu ar ymrwymiadau ariannol ar y cyd ar draws Llywodraethau a sectorau i wella seilwaith y rhanbarth a chreu'r amodau ar gyfer buddsoddiad parhaus yn y sector preifat ac economi ffyniannus.

Rydym yn symud i'r pum mlynedd nesaf yn hyderus y bydd hwn yn gyfnod arwyddocaol o ran cyflawni'r cynllun, gydag amcangyfrif o rhwng £200m a £220m o gyllid y Cynllun Twf yn cael ei ryddhau i brosiectau erbyn 2030. Rydym wedi ymrwymo i gynnal y momentwm ar gyflawni a gwariant. Erbyn 2030 bydd holl brosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu cyflawni ac yn cyflawni yn erbyn ein buddion, gan wneud y mwyaf o'r effaith yn y rhanbarth.

	Y sefyllfa bresennol	Sefyllfa a ragwelir- diwedd mis Mawrth 2030	Sefyllfa a ragwelir- Diwedd y Cynllun Twf (2036)
Prosiectau yn Cyflawni	6	Y cyfan	Y cyfan
Buddsoddiad y Cynllun Twf	£	£200m-£220m	£240m
Cyfanswm Buddsoddiad	£	£600m-£700m	£800m-£1bn
Swyddi	49	1,800-2,200	3,250-4,500

Llywodraethu

Hyd at 31 Mawrth 2025, roedd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn rhwym gan delerau Cytundeb Llywodraethu 2, gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithredu fel Cyd-bwyllgor cytundebol, a Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel y Corff Atebol.

O 1 Ebrill 2025, ar ôl sicrhau trosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, cytunodd y partneriaid i ymrwymo i Gytundeb Cyflawni a Chyllid, a drosglwyddodd ymrwymiadau cyllido a gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen gyfreithiol rwymol, yn diffinio rôl a swyddogaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i bartneriaid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Cytundeb Cyflawni a Chyllido yn ddogfen allweddol, sy'n darparu strwythur a sylfaen glir ar gyfer mynd â gweithredu'r Cynllun Twf ymlaen. Gwneir darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau'r partneriaid i'r prosiectau a sut caiff y rhain eu rheoli a'u dosrannu. Yn ogystal, rhoddir sylw i'r trefniadau gwaelodol sy'n darparu ar gyfer materion cyfreithiol a chydymffurfio o fewn y bartneriaeth a llywodraethu'r Swyddfa Rheoli Perfformiad.

Bwriedir i'r Cytundeb hwn eistedd ochr yn ochr â llywodraethiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig a dogfennau'r Cynllun Twf er mwyn sicrhau bod y Cynllun Twf yn cael ei weithredu'n barhaus.

Y cytundeb Cyflawni a Chyllido yw'r cytundeb rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a'n partneriaid, sy'n diffinio sut rydym yn cyflawni yn erbyn y Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf yw'r cytundeb rhwng partneriaid Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff corfforedig ynddo'i hun, sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol, dal asedau a rheoli cyllid.

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penodi'r Is-bwyllgor Lles Economaidd i arwain ar swyddogaethau Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo a chydlynu'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r Cynllun Twf. Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys 6 Aelod Cyngorau cyfansoddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac fe'i cefnogir gan gyfethol Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria. Mae cynrychiolydd o'r Bwrdd Cyngori Busnes, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd wedi'u cyfethol i'r Is-bwyllgor.



Parhad...



Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â mentrau datblygu economaidd yn y rhanbarth. Mae'n cymryd trosolwg o gymeradwyaeth yr Achosion Busnes Amlinellol a'r Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau ym mhorthffolio'r Cynllun Twf, gan sicrhau bod y mentrau arfaethedig yn cwrdd â'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer cyllid. Yn ogystal, mae'r is-bwyllgor yn cadw'r awdurdod i gymeradwyo cytundebau ariannu ac amrywiadau iddynt lle bo hynny'n angenrheidiol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau ac mae wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf.

Mae perfformiad y rhaglenni a'r prosiectau'n cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau perfformiad a risg ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd, eu partneriaid a Llywodraethau'r DU a Chymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru paratoi Adroddiad Blyneddol i adrodd ar gynnydd, perfformiad ac effaith. Mae'r Adroddiad Blyneddol yn cael ei gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor cyn iddo gael ei gyflwyno i'r ddwy Lywodraeth a Phwyllgorau Craffu'r partneriaid.



Ariannu/Cyllid

Cyllid ar lefel Portffolio a Rhaglenni

Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd (y Bwrdd Uchelgais Economaidd gynt) yn cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae'r gyllideb gyfalaf flynyddol yn adlewyrchu'r proffil gwariant diweddaraf ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf. Mae'r gyllideb gyfalaf yn cynnwys sleisio 2.15% i ariannu'r gyllideb refeniw bob blwyddyn.

Er y bydd y gwariant o £240m yn cael ei ariannu o'r Cynllun Twf, bydd amseriad derbyn y grant yn golygu y bydd angen benthyca yn y tymor byr. Bydd cost benthyca yn cael ei hariannu gan bartneriaid ac arianwyr prosiectau, ac mae partneriaid eisoes wedi bod yn cyfrannu swm blynyddol tuag at y costau hyn sydd wedi'u neilltuo mewn cronfa benodol.

Mae achos busnes pob prosiect yn cynnwys Achos Ariannol. Unwaith y bydd yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo, mae'n ofynnol i bob prosiect ymrwymo i Gytundeb Cyllido Grant, gydag amserlen hawliadau wedi'i chytuno.

Cyfraniadau Ariannu Llif Arian y Cynllun Twf

Mae cyfanswm cyfraniad grant o £240m i Gynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei ddarparu gan Lywodraethau'r DU a Chymru dros gyfnod o 15 mlynedd.

Yn sgil proffil taliadau grant blynyddol y Cynllun Twf gan y llywodraeth, mae bwlch cyllido tymor canolig dros dro yn bodoli rhwng proffil gwariant disgwylidig y Cynllun Twf a'r cyllid a dderbynnir.

Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Uchelgais Gogledd Cymru) yn gyfrifol am reoli'r llif arian negyddol hwn. Yr awdurdodau lleol (yn gymesurol i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Cynllun Twf gyda phartneriaid arweiniol y prosiectau yn gyfrifol am y gost mewn perthynas â'u prosiect nhw (sy'n creu asedau).

Parhad...

Cyfraniadau Blynyddol y Partneriaid

Nid oes unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf ar gyfer cyflawni'r prosiectau neu gostau rhedeg gweithredol y prosiectau unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

Mae'r cyllid refeniw i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau partneriaid Uchelgais Gogledd Cymru (gan gynnwys cyfraniadau atodol awdurdodau lleol). Mae swm sy'n cyfateb i'r 'top slice' o grant blynyddol y llywodraeth ar 2.15% hefyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu hyn. Bydd unrhyw gostau Swyddfa Rheoli Portffolio ychwanegol a briodolir yn uniongyrchol i gyflawni'r prosiectau yn cael eu cynnwys o fewn achosion busnes y prosiectau.

Mae cyfraniadau blynyddol y partneriaid tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u nodi yn y tabl isod:



Cyfraniadau Awdurdodau Lleol

Cyfraniadau Blynyddol AU/AB

Cyfanswm y Cyfraniadau Blynyddol

Cyfraniadau Craidd Blynyddol*

£58,730 fesul ALI

**£29,380 fesul
partner**

£400k

Cyfraniad Atodol Blynyddol**

£40k fesul AIL

0

£240k

**dyma'r ffigurau ar gyfer 2025/26. Mae'r cyfraniadau craidd blynyddol yn ddarostyngedig i fynegeio ar ddechrau pob cyfnod cyfrifyddu.

** mae'r cyfraniad hwn yn gyfraniad atodol y cytunwyd arno gan yr Awdurdodau Lleol yn unig



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales

info@ambitionnorth.wales

